# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025** yn rhithwir trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am **09:30**.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Ian Hodge | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Llinos Evans | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Heledd Davies | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **PENODI CADEIRYDD 2025/26**

1.1 Rhoddodd Clerc yr Awdurdod wybod i'r Aelodau fod un enwebiad wedi dod i law ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gan y Cynghorydd Dylan Rees.

1.2 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 18 Aelod o blaid ac un yn ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd yr Awdurdod ar unwaith.

1.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Y dylid penodi'r Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2025-26.**

**2 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Thomas Montgomery | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. Croesawyd y Cynghorwyr Ian Hodge, Tom Montgomery a Chrissy Gee i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**3 DATGANIADAU O FUDDIANT**

3.1 Nododd y Clerc fod gan bob Aelod fuddiant personol yn yr eitem ynghylch cydnabyddiaeth ariannol Aelodau.

**4 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2025/26**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod un enwebiad wedi dod i law ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod gan y Cynghorydd Mark Young.

4.2 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 17 Aelod o blaid a dau yn ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Mark Young yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar unwaith.

4.3 Diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Cunningham am ei ymroddiad a'i ymrwymiad i rôl Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod dros y tair blynedd diwethaf.

4.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Penodi'r Cynghorydd Mark Young yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2025-26; a**
**ii) Throsglwyddo'r Cynghorydd Mark Young o'r Pwyllgor Archwilio i'r Panel Gweithredol er mwyn bodloni gofynion aelodaeth y Panel hwnnw.**

## 5 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2025/26

5.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod dau enwebiad wedi dod i law ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan y Cynghorydd Gwynfor Owen a'r Cynghorydd Gareth Sandilands.

5.2 Cynigiwyd a secondiwyd yr enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Gwynfor Owen.

5.3 Cynigiwyd a secondiwyd yr enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Gareth Sandilands.

5.4 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda chwech Aelod o blaid y Cynghorydd Owen, 10 o blaid y Cynghorydd Sandilands a thri yn ymatal.

5.5 Gan fod y Cynghorydd Sandilands yn aelod o'r Panel Gweithredol ar hyn o bryd, cynigiwyd ei fod yn trosglwyddo i'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei ymrwymiad fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw. Eiliwyd y cynnig hwn gyda phawb o blaid.

5.6 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Penodi'r Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2025/26; a**
- **ii) Throsglwyddo'r Cynghorydd Gareth Sandilands o'r Panel Gweithredol i'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.**

## 6 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2025/26

6.1 Nodwyd nad oedd unrhyw enwebiadau wedi dod i law ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2025/26 a chadarnhaodd y Cynghorydd Gwynfor Owen nad oedd yn dymuno cael ei enwebu ar gyfer y rôl honno. Cytunwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor benderfynu ar y penodiad hwn yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio.

6.2 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Gohirio penodi Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio tan gyfarfod cyntaf y Pwyllgor hwnnw.**

## 7 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

7.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

## 8 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB GAN YMGORFFORI PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

8.1 Cyflwynodd y Clerc y papur mewn perthynas ag aelodaeth yr Awdurdod gan ymgorffori Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol. Roedd y papur hwn yn gwahodd yr Aelodau i nodi aelodaeth yr Awdurdod a'i bwyllgorau, a oedd wedi newid ers y flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd yn nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

8.2 Nodwyd bod swydd wag yn parhau i fod ar yr Awdurdod ar gyfer Gwynedd a bod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddai penodiad yn cael ei wneud erbyn mis Medi. Gofynnwyd i Aelod benywaidd gael ei phenodi, os oedd modd, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd o ran rhywedd.

8.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd y niferoedd rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn gyfartal, a nodwyd felly y byddai'n ofynnol i Aelod drosglwyddo o'r Pwyllgor Archwilio i'r Panel Gweithredol, un o Gynghorwyr Conwy yn ddelfrydol er mwyn cadw cydbwysedd o ran cynrychiolaeth awdurdodau lleol. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Sharon Doleman a'r Cynghorydd Arwyn Herald Roberts i drosglwyddo, a chytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol;**
**ii) Penodi'r Cynghorydd Ian Hodge i'r Pwyllgor Safonau; a**
**iii) Chytuno i drosglwyddo un Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r Pwyllgor Archwilio i'r Panel Gweithredol y tu allan i'r cyfarfod.**

## 9 DYDDIADAU CYFARFODYDD 25/26

9.1 Cyflwynodd y Clerc ddyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn 2025-26 i'r Aelodau. Nodwyd, lle bo hynny'n bosibl, bod awdurdodau lleol wedi cytuno i osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd cyngor a chyfarfodydd llawn yr Awdurdod.

9.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.**

## 10 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU

10.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau a oedd yn rhoi gwybod iddynt am gyfraddau presennol cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac yn gofyn iddynt gymeradwyo'n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

10.2 **PENDERFYNWYD:**

- **i)** **Nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau o 1 Ebrill 2025;**
- **ii)** **Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i atodlen 2025/26 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a**
- **iii)** **Chymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2024/25 fel sy'n ofynnol gan y Panel.**

**11 MATERION BRYS**

11.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

**Daeth y cyfarfod i ben: 09:52**